

Cofio eu henwau

“...gan dystiolaethu i Iddewon a Groegiaid am edifeirwch tuag at Dduw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu.” (adn. 21)

Beth am ddarllen Actau 20:17–38 ac yna myfyrio

Pan ddaeth Isaac i ddyffryn Gerar, fe ddywedir yn yr Ysgrythur ei fod wedi cofio enwau'r ffynhonnau y bu i'w dad eu hagar, ac fe roddodd iddynt yr un enwau ag a roddodd Abraham iddynt (Gen. 26:18). Bu degawdau ers i Isaac fod yn y dyffryn hwnnw gyda'i dad, ond yr oedd yn dal i gofio enwau'r ffynhonnau. Fe fyddai'n ddefnyddiol iawn yn ystod y myfyrdodau hyn ini hefyd gofio enwau rhai o'r ffynhonnau yr oedd ein tadau yn y ffydd wedi eu hagar, ffynhonnau y mae'r rhai sydd o feddylfryd Philistaidd wedi taflu eu hysbwriel iddynt.

Y ffynnon gyntaf yr wyf am ddal sylw arni yw'r un lle ceir y gwirionedd bendigedig fod y cyfiawn yn byw trwy ffydd. Wedi sefydlu'r Eglwys Gristnogol ar ôl y Pentecost, dechreuodd yr apostolion bregethu, gan ddsygu'r bobl fod rhaid cael ein derbyn gan Dduw, nid ar sail ein gweithredoedd da, ond yn hytrach trwy ffydd yn nioedfiadau'r Arglwydd Iesu Grist ar y groes. Yn y darn o'r Ysgrythur yr ydym yn edrych arno heddiw, fe welwn yr apostol Paul, oedd yn amlwg yn cyhoeddi'r gwirionedd hwn yn glir, yn tystiolaethu i henuriaid yr eglwys yn Effesus ei fod wedi cyhoeddi i Iddewon a Groegiaid eu bod i droi tuag at Dduw mewn edifeirwch ac i fod â ffydd yn Iesu. Ychydig a wyddai y byddai'r ffynnon y tynnwyd y gwirionedd ohoni, mewn canrifoedd i ddod, yn cael ei llenwi â phob math o ysbwriel fyddai'n gwahardd nifer di-ri rhag yfed y dŵr bywiol a ddeuai trwyddi, gan beri i bobl ymddiried yn eu daioni eu hunain yn hytrach nag yn nhrugaredd Iesu Grist.

Fe ddaeth y dydd pan ailagorwyd y ffynnon honno, a hynny mewn ffordd ddramatig, ond yn ystod y canrifoedd lle caewyd hi, gellir cyfeirio at y rhain fel y cyfnodau mwyaf tywyll yn hanes yr Eglwys Gristnogol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gal. 2:3–5; 2:11–16; Heb. 6:1–3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw dysgeidiaeth sylfaenol Cristnogaeth?
2. Sut y bu i bobl geisio llygru ffynnon cyfiawnhad trwy ffydd?

Gweddi

O Dduw, caniatâ inni dy ras a'th nerth i wrthwynebu unrhyw ymdrech Philistaidd sy'n ceisio gwadu neu osgoi'r gwirionedd fod iachawdwriaeth yn dod trwy ffydd ac nid trwy weithredoedd. Yn enw Iesu. Amen.